| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Partneriaeth** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **19 Ebrill 2012** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad** |
| **Awduron yr Adroddiad:** | **Rheolwr Partneriaethau a Chymunedau,<br>Swyddog Cynorthwyol Cynllunio a Pherfformiad** |
| **Teitl:** | **Pecyn Llywodraethu Partneriaeth** |

---

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

1.1 Pecyn Llywodraethu Partneriaeth y Cyngor.

## 2. Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

2.1 Gofynnodd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol am yr adroddiad hwn mewn ymateb i adolygiad Gwasanaethau Archwilio Mewnol y Cyngor Sir ar Lywodraethu Partneriaeth, Tachwedd 2011.

2.2 Cael cyngor ar roddi cysondeb, arweiniad ac arferion da ar gyfer gwaith partneriaeth yn y dyfodol gan y Pwyllgor Craffu Partneriaeth yn unol â'r atodlen sydd ynghlwm a'r dogfennau cysylltiedig.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor Craffu Partneriaeth yn gwneud sylwadau ar y Pecyn (Atodiad 2) a'r Atodlen Weithredu gysylltiedig (Atodiad 1).

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Pwrpas y Pecyn Llywodraethu Partneriaeth arfaethedig yw helpu'r Awdurdod i wella trefniadau llywodraethu da ac arferion da ar gyfer ei bartneriaid; pennu cwmpas gwaith partneriaeth, categoreiddio partneriaethau o ran arwyddocâd cyfyngedig, canolig a phwysig, gan alluogi adnabod meysydd i wella perfformiad a chael arbedion effeithlonrwydd.

4.2 Bydd defnyddio'r Pecyn, a chwblhau Cerdyn Sgorio Asesu Arwyddocâd a Rhestr Wirio Achosion Busnes, yn cynorthwyo wrth lunio'r Gofrestr Bartneriaeth, gan sicrhau ei bod yn cael ei diweddaru ac yn berthnasol.

4.3 Blaenoriaeth allweddol yw sicrhau bod fframwaith partneriaeth ystyrlon yn Sir Ddinbych. Unwaith y bydd y pecyn yn gweithredu, bydd yr Awdurdod:

- Yn gofyn i Bartneriaethau gwblhau "Archwiliad Iechyd" blynyddol
- Yn meddu ar Gofrestr Bartneriaeth sy'n canolbwyntio ar arwyddocâd a risg

- Yn meddu ar Gofrestr a fydd yn adnabod swyddogion arweiniol perthnasol yn y Sir
- Wedi adnabod risgiau a fydd yn bwydo gwybodaeth i'r Gwasanaeth priodol a/neu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

4.4 Bydd y broses well hon o fonitro partneriaethau yn helpu gwella gwaith craffu effeithiol ac yn canolbwyntio ar bartneriaethau arwyddocaol a phartneriaethau pwysig.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at Flaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae gwaith llywodraethu partneriaethau gwell yn faes allweddol o ran gwella perfformiad y Cyngor.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?**

6.1 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw oblygiadau i faes gwasanaeth penodol.

**7. Pa ymgynghori a fu?**

7.1 Gofynnwyd i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ystyried y camau arfaethedig ym mis Chwefror 2012 a chafwyd adborth adeiladol a ymgorfforwyd yn y dogfennau a ddarparwyd.

7.2 Mae'r ffranwaith newydd hefyd yn cymryd gofynion Archwilio Mewnol i ystyriaeth.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ddim yn berthnasol.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?**

9.1 Os bydd partneriaeth gyda'r Awdurdod yn methu mewn unrhyw ffordd, efallai y bydd risgiau arwyddocaol o ran cyllid, capasiti, enw da ac yn y blaen.

9.2 Bydd y mesurau yn y Pecyn yn sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.

**10. Pŵer i gymryd y Pendefyniad**

Ddim yn berthnasol

**11. Dogfennau perthnasol:**

- Atodlen arfaethedig ar gyfer Gweithredu’r Pecyn (Atodiad 1)
- Pecyn Llywodraethu Partneriaeth arfaethedig (Atodiad 2)
- Nodiadau Arweiniad drafft ar gyfer y Pecyn Llywodraethu Partneriaeth (Atodiad 3)

**12. Swyddogion Cyswllt:**

Rheolwr Partneriaethau a Chymunedau
Ffôn 01824 706298

Swyddog Cynorthwyol Cynllunio a Pherfformiad
Ffôn 01824 706257